

## CYNGOR SIR CEREDIGION

<b>Adroddiad i'r:</b>	<b>Cyngor</b>
<b>Dyddiad y cyfarfod:</b>	<b>21 Mawrth 2024</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Fframwaith Llywodraethu</b>
<b>Pwrpas yr adroddiad:</b>	<b>Cymeradwyo'r Fframwaith Llywodraethu</b>
<b>Er:</b>	<b>Penderfyniad</b>
<b>Portffolio'r Cabinet ac Aelod o'r Cabinet:</b>	<b>Y Cyngorydd Matthew Vaux, Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, Cyfreithiol a Llywodraethu ac Amddiffyn y Cyhoedd</b>

### Cefndir

Yn dilyn adolygiad o ddogfennau llywodraethu'r Cyngor, cytunwyd y byddai Fframwaith Llywodraethu yn cael ei greu i weithredu fel dogfen gyffredinol sy'n cwmpasu trefniadau llywodraethu'r Cyngor ac i gymryd lle'r Cod Lleol cyfredol ar gyfer Llywodraethu Corfforaethol [2023-2024-local-code-of-corporate-governance.pdf \(ceredigion.gov.uk\)](https://www.ceredigion.gov.uk/2023-2024-local-code-of-corporate-governance.pdf).

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddangos bod ganddo'r trefniadau llywodraethu corfforaethol angenrheidiol y neu lle i berfformio'n effeithiol, ac i sicrhau bod y trefniadau hyn yn cael eu hadlewyrchu yn nogfennaeth trefniadau llywodraethu'r Cyngor.

Mae'r Fframwaith Llywodraethu drafft sydd ynghlwm (**Atodiad 1**) yn dangos y trefniadau sydd yn eu lle i sicrhau bod y canlyniadau arfaethedig ar gyfer pob rhanddeiliad yn cael eu diffinio a'u cyflawni, gan sicrhau hefyd bod y Cyngor bob amser yn gweithredu er budd y cyhoedd. Mae'n nodi'r modd y mae'r Cyngor yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw er mwyn cyflawni gweledigaeth ac Amcanion Llesiant Corfforaethol y Cyngor, yn dwyn ynghyd yr holl drefniadau llywodraethu ac yn rhoi sicrwydd bod trefniadau llywodraethu clir yn eu lle.

Mae'r ddogfen Fframwaith Llywodraethu yn crynhoi sut mae'r Cyngor:

- yn trefnu ei weithgareddau drwy benderfynu ar lywodraethu priodol, goruchwyliaeth weithredol a strwythur sefydliadol
- yn cytuno ac yn gweithredu polisïau, systemau a phrosesau cadarn
- yn gwneud ac yn gweithredu penderfyniadau mewn modd effeithlon a thryloyw gan ymgysylltu â phobl leol ac thrwy fod yn atebol i bobl leol

Rhannwyd y Fframwaith Llywodraethu drafft gyda Chadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wrth ddrafftio'r ddogfen.

Ar 14 Mawrth 2024 argymhellodd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio y ddrafft Fframwaith Llywodraethu i'r Cyngor i'w fabwysiadu.

**Cynnig**

Cynigir bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Fframwaith Llywodraethu, a fydd yn disodli'r Cod Llywodraethu Corfforaethol Lleol presennol.

**ARGYMHELLIAD(AU):**

Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r Fframwaith Llywodraethu (**Atodiad 1**)

**RHESWM DROS ARGYMHELLIAD(AU):**

Er mwyn sicrhau bod trefniadau llywodraethu'r Cyngor yn addas i'r diben.

**Atodiad(au):**

Atodiad 1: Fframwaith Llywodraethu

**Pennaeth y Gwasanaeth:**

Elin Prysor, Swyddog Arweiniol Corfforaethol – Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu / Swyddog Monitro

**Swyddog Adrodd:**

Katy Sinnott-Jones – Swyddog Llywodraethu

**Dyddiad:** 05.03.2024